**PAPUR COMISIYNU AR GYFER CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB 2001**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r cynlluniau ar gyfer cylch cyllidebu 2001 ac yn rhoi cychwyn ffurfiol i'r broses gyllidebu o dan Reol Sefydlog 19.

2. **Gofynnir i Bwyllgorau'r Cynulliad a phartneriaid eraill ymateb i'r papur hwn ac unrhyw bapurau dilynol a gyhoeddir gan Weinidogion, erbyn 20 Gorffennaf fan hwyraf.** Hyn er mwyn helpu'r Gweinidog Cyllid i lunio cyllideb ddrafft ym mis Hydref.

3. Prif amcanion y cylch hwn yw:

- mesur yr hyn a wnaed a chanolbwyntio ar wireddu'r prif dargedau, gan gynnwys y rheini yn *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer pobl Cymru* a *gwellcymru.com*;

- parhau i gloriannu effeithiolrwydd yr hyn a wnawn o fewn ein cyllidebau presennol;

- rhagweld y pwysau a ddisgwylir;

- edrych tua'r dyfodol, a chynnig syniadau adeiladol ar gyfer cyflawni amcanion tymor canolig a hir er mwyn sicrhau Cymru well.

4. Mae'r papur wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

- y cyd-destun strategol;

- y cefndir ariannol;

- y materion i'w hystyried gyntaf;

- trefnu cylch cynllunio'r gyllideb.

**Y Cyd-destun Strategol**

5. Ym mis Tachwedd 2000, lansiodd y weinyddiaeth *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru*. Ei brif themâu oedd:

- *Datblygu Cynaliadwy* – diwallu anghenion y presennol heb aberthu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu'u hanghenion hwythau

- *Trechu anfantais gymdeithasol* - datblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb gyfle i gyflawni eu potensial

- *Cyfle Cyfartal* – hybu diwylliant sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth a lle bydd cyfle cyfartal yn realiti

6. Cytunir i gefnogi'r polisïau a'r prosesau cyffredinol sydd bellach yn eu lle, e.e. yr hyn a geir yn *gwellcymru.com*, oni chânt eu diwygio gan y cytundeb partneriaeth. Mae'n hollbwysig felly yn y BPR ein bod

- yn sicrhau ein bod yn defnyddio'n hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol i daro'n targedau;

- yn gofalu bod ein hadnoddau yn cyfateb i'n blaenoriaethau;

- yn cloriannu'r targedau ac yn ystyried unrhyw newidiadau y dylem eu gwneud er mwyn eu taro.


7. I ddangos bod y materion hyn yn cael sylw, bydd gofyn ateb y cwestiynau canlynol –

- **beth sydd gofyn eu gwneud i gyflawni'r canlyniadau y gofynnir amdanynt yn y *Cytundeb Partneriaeth* a *gwellcymru.com?***


- **beth fydd effaith unrhyw newidiadau o ran cyflawni'r canlyniadau ar bolisi a/neu adnoddau?**

<u>**Y cefndir ariannol**</u>

**Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001-02 gan prif Grwpiau Gwariant**




O ran y prif feysydd gwasanaeth, gwerir [bron i 48 y cant] o'r gyllideb Gymreig ar iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol personol ac addysg.




**Materion i'w hystyried**

8. Carwn i'r holl bwyllgorau a'r partneriaid ystyried sut bydd y themâu canlynol yn dylanwadu ar eu priod feysydd. Adlewyrchant gan fwyaf brif themâu'r llynedd ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i gloriannu a gwella'r agweddau pwysig hyn ar waith y Cynulliad –

**Datblygu Cynaliadwy**

- I ba raddau y mae'i waith yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn arbennig, yn cymhathu agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol?

**Amddifadedd Cymdeithasol**

- I ba raddau y mae'r hyn a wneir yn trechu amddifadedd? Am y cefndir, gweler y mynegai amddifadedd newydd. Ymhlith y materion pwysicaf i'w hystyried yw:

- Sut gallem wneud ein gwaith yn wahanol i adlewyrchu argymhellion ar gyfer rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a fyddai'n dod ag arian o ffynonellau gwahanol ynghyd [link];

- A oes ffocws digon cyson ar anghenion plant a phobl ifanc; a

- Faint o gefnogaeth sydd ar gyfer yr henoed.

**Cydraddoldeb**

- Pa gamau a gymerwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gyflawni amcanion y Cynulliad o ran cyfle cyfartal?

- Pa gamau sydd wedi'u cymryd i wella perfformiad?

**Symleiddio**

- Mae llawer iawn wedi'i wneud yn y 12 mis diwethaf i ysgafnhau'r baich papur. A oes lle i'w leihau ymhellach?

**Darparu Gwasanaethau**

- Ai'r mecanweithiau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau yw'r mwyaf addas ac effeithiol i gyflawni amcanion y Cynulliad? Yn arbennig:

- A oes modd gwneud mwy o'r sector gwirfoddol?

- A yw'r cyrff noddedig yn ysgwyddo'r rôl mwyaf priodol?

- Pa feini tramgwydd sy'n parhau i rwystro cydweithio effeithiol?

**Papurau Safbwynt gan Weinidogion**

10. Mae'r nodyn comisiynu hwn yn rhybudd cynnar i bwyllgorau a phartneriaid o'r broses BPR. Bydd Gweinidogion yn cyflwyno'u papurau safbwynt nes ymlaen.

11. Bydd y papurau'n mynegi safbwynt ar:

- y perfformiad yn 2001-2001;

- adroddiad cynnydd, rhwystrau a materion ynghylch taro prif dargedau 2003 e.e. yn *gwellcymru*;

- adroddiad ar hynt *Rhoi Cymru'n Gyntaf*;

**Cyllideb Ddrafft**

12. Yng ngoleuni'r safbwyntiau a ddaw i law, bydd y weinyddiaeth yn cyflwyno cyllideb ddrafft i'w hystyried ym mis Hydref, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2. Bydd hyn yn caniatau i'r Pwyllgorau a'r partneriaid

gynnig eu sylwadau ar y dyraniadau a gynigir ac ar y ffordd y maent yn cyflawni amcanion *Rhoi Cymru'n Gyntaf* a *gwellcymru.com*.

**Y Gyllideb Derfynol**

13. Yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yr amcan yw penderfynu ar gyllideb fanwl derfynol yn gynnar ym mis Rhagfyr. Byddai hynny'n rhoi digon o amser i'r rheini sy'n derbyn nawdd i gynllunio'u rhaglenni.

14. Dylai pwyllgorau a phartneriaid ffurfiol ymateb i'r Gweinidog perthnasol.

15. Dylai partneriaid, unigolion a chyrff eraill anfon eu hymatebion at:

Alison Davies,
Is-adran Cynllunio Ariannol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 20 82 63 01
Ebost: - Budget_and_Strategic_Planning@Wales.GSI.GOV.UK